

## 'Tua Bethlem Dref'

Mi wyddoch erbyn hyn nad wyf yn or hoff o sôn am y Nadolig yn rhy fuan. Mi ddywedwn i fod dydd cyntaf mis Rhagfyr hyd yn oed braidd yn gynnar i wneud hynny. Ond mae gofyn rhoi sylw mewn da bryd i'r cyfarfodydd, ac felly dyma ddau ohonynt:

**Nos Fawrth, Rhagfyr 10:** Cyfarfod Nadolig Cymdeithas Undebol Llanberis yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch gyda Pharti Ffrindiau Bytholwyrdd. Bydd y noson ar ffurf Llith a Charol, ac estynnir croeso cynnes i bawb i ymuno â ni i ddathlu'r Nadolig.

**Nos Fawrth, Rhagfyr 17:** Gwasanaeth Naw Llith a Charol undebol yn Eglwys Sant Padarn am 7.00 o'r gloch. Roedd y gwasanaeth hwn yn Capel Coch y llynedd ac yn Eglwys Sant Padarn ddwy flynedd yn ôl. Bydd yn gyfle i eglwysi'r pentref ddathlu'r Nadolig gyda'i gilydd. Gwneir casgliad at Gynllun Efe yn yhr oedfa hon eleni eto.

Ceir gwybodaeth am gyfarfodydd eraill y Nadolig yn nes ymlaen.

### Y mis nesaf - Deiniolen

#### Rhagfyr 1

##### Dim oedfa yn y bore

10.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Y Parchg Marcus Robinson

#### Rhagfyr 8

10.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Y Parchg W R Williams

#### Rhagfyr 15

10.00 a.m. - Gwasanaeth Nadolig y Plant

5.00 p.m. - Y Gweinidog

## Cyhoeddiadau

### CEFNYWAUN AC EBENESER

**Nos Fercher, Rhagfyr 4:** Cyfarfod Gweddï Efe yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch.

**Dydd Sul, Rhagfyr 8:** Cynhelir yr Ysgol Sul am 10.15 o'r gloch, ac yn yr oedfa am 5.00 o'r gloch gwasanaethir gan y Parchg W R Williams Y Felinheli.

### CAPEL COCH A NANT PADARN

**Dydd Mercher, Rhagfyr 4:** Cynhelir Ffair Nadolig yn y festri am 2.30 o'r gloch, er budd Cronfa'r Capel. Croeso cynnes i bawb.

**Nos Fercher, Rhagfyr 4:** Cyfarfod Gweddï Efe yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch.

**Nos Wener, Rhagfyr 6:** Cynhelir CIC yn y festri rhwng 7.00 a 8.30 o'r gloch.

**Dydd Sul, Rhagfyr 8:** Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Cynhelir oedfa MOLI am 5.00 o'r gloch.

### REHOBOTH

**Dydd Sul, Rhagfyr 8:** Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

### Y mis nesaf - Llanberis

#### Rhagfyr 1

10.00 a.m. - Mr John H Hughes

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Y Parchg Eifion Williams

#### Rhagfyr 8

10.00 a.m. - Y Gweinidog

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Oedfa MOLI

#### Rhagfyr 15

10.00 a.m. - Mr John H Hughes

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Mr Dewi Jones



# Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Deiniolen, Llanberis a Nant Peris  
Rhif 569 - Dydd Sul, 01 Rhagfyr 2013

## Gwahoddiad personol

'A be sy mor sbesial amdano fo?' medda fi wrth Mr Murdoch. Nid bod Mr Murdoch yn y tŷ hefo mi, wrth reswm. Ond llythyrau ei gwmmi fo oedd yn fy llaw, ac roedd hi'n ddigon teg felly i mi ei ddal o'n bersonol yn gyfrifol am yr anghyfartaledd amlwg a'r cam enfawr a wnaed â mi.

Dim ond taflen liwgar ges i efo'r post dyddiol. (Yn rhyfedd iawn mi ges i daflen hynod o debyg efo'r *Daily Post* yr un diwrnod). Ond y diwrnod hwnnw roedd y postmon hefyd wedi dod â llythyr i Gruffudd. Ia, llythyr bach clên iddo fo gyda'i enw a'i gyfeiriad arno'n daclus; ond taflen amheronol i mi! Yr un daflen ag a anfonwyd at filoedd o bobl eraill y diwrnod hwnnw.

Ond nid dyna'r cyfan! Y peth oedd yn brifo go iawn oedd bod Mr Murdoch yn gofyn i mi dalu £21.50 y mis iddo am ei raglenni teledu, ond yn cynnig yr un peth yn union i Gruffudd am £16.12. Pa sens sydd mewn peth felly? A pha degwch? Llythyr personol iddo fo! 25% yn rhatach iddo fo! Ar ei ben i'r bin ailgylchu yr aeth y daflen! I'r un bin yr aeth y llythyr hefyd! (Gredwch chi fod y daflen a ddaeth efo'r papur newydd yn cynnig telerau gwahanol eto? I'r bin yr aeth honno hefyd.)

Un o ogoniannau'r Efengyl yw mai'r un peth yn union a gynigir i bawb. Pwy bynnag ydym, yr un yw'r cynnig. Beth bynnag ydym, yr un yw'r telerau. Does dim ffafriaeth nac amodau gwahanol. 'Edifarhewch a chredwch yr Efengyl.'

'Cred yn yr Arglwydd Iesu Grist a chadwedig fyddi.' Felly y dywedir wrth bawb ohonom yn ddiwahân.

Nid yw'r Arglwydd yn gwahaniaethu rhyngom; nid yw'n amrywio telerau'r iachawdwriaeth er mwyn ei gwneud yn haws i rai neu'n fwy anodd i eraill i fynd i mewn i'r deyrnas. Edifeirwch am bechod a ffydd bersonol yn Iesu Grist yw'r ffordd i bawb. Nid yw un yn cael ei dderbyn ar sail ffydd ac un arall ar sail y pethau da y mae'n eu gwneud; nid yw un yn ddiogel trwy ei ymdrechion crefyddol ac un arall trwy ei onestrwydd di-grefydd a di-gapel.

Un Efengyl sydd, a honno'n cynnig yr un ffordd at Dduw trwy Grist i bawb sy'n ei chredu. Mae ynddi wahoddiad cyffredinol i unrhyw un i ddod at Grist, a chaiff hwnnw ei estyn bob tro y cyhoeddir yr Efengyl.

Ond mae ynddi wahoddiad personol hefyd (mwy personol na'r llythyrau a gyfeirir atom gan yr un cwmni) i ni ei chredu. Y mae Duw, yn ôl y Beibl, yn galw ar bawb i ddod i edifeirwch. Ond mae Cristnogion wedi profi hefyd alwad bersonol Duw iddyn nhw droi at yr Arglwydd Iesu Grist. Mae fel petai Duw wedi cyfeirio neges yr Efengyl atom ni'n bersonol; a ninnau'n gweld bod y neges yn gwbl berthnasol i ni. Mor berthnasol, mewn gwirionedd, nes bron ein bod yn tybio mai ar ein cyfer ni yn benodol y trefnwyd y Gwardwr a'r iachawdwriaeth. A'r cyfan er nad oes dim byd sbesial amdonom o gwbl.

Gofalaeth Unedig  
Deiniolen, Llanberis a Nant Peris

Cefnywaun (P), Deiniolen  
Ebeneser (A), Deiniolen  
Capel Coch (P), Llanberis  
Nant Padarn A), Llanberis  
Rehoboth (P), Nant Peris

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard  
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd  
Ffôn: 01286 872390  
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:  
gronyn.wordpress.com  
neu gronyn.org

## Heddiw

Croeso i oedfaon Sul arall. Gweddiwn am fendith Duw ar ein haddoliad trwy'r dydd.

Bydd yr Ysgol Sul yn Neiniolen am 10.15 o'r gloch a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Marcus Wyn Robinson, Bethel. Diolch yn fawr iawn iddo am ddod i arwain yr oedfa.

Bydd yr oedfa am 10.00 o'r gloch yn Llanberis dan arweiniad Mr John H Hughes; a diolch iddo am ei gymorth unwaith eto. Cynhelir yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Eifion Wyn Williams, Llanfairfechan. Estynnwn groeso iddo unwaith eto wrth ddiolch iddo yntau am ei wasanaeth.

Nid oes oedfa yn Rehoboth heddiw.

## Cofion

## Cinio Cawl Capel

Diolch yn fawr iawn i bawb a ddaeth i'r Cinio Cawl a gafwyd ar ôl yr Oedfa Deulu yn Capel Coch y Sul diwethaf.

Roedd yn agos i 40 ohonom yno i fwynhau'r cinio a'r sgwrsio dros y byrddau, ac roedd yn braf iawn gweld cymaint o bob oed yno.

Diolch yn fawr iawn i bawb a fu'n helpu mewn unrhyw ffordd i baratoi'r bwyd ac i hwylio'r byrddau a gwneud y festri'n barod ar gyfer y cinio. Roedd yn gryn gamp cael popeth yn ei le o gofio bod gennym oedfa i'w chynnal yn y festri cyn cinio. Ond llwyddwyd i gael trefn ar y cyfan.

Rhwng yr oedfa a'r cinio cafwyd cwis a oedd wedi ei baratoi gan bobl ifanc yr Ysgol Sul. Ffurfiwyd pedwar tim a chafwyd cystadlu brwd wrth geisio ateb y cwestiynau. Symudwyd o'r cwis at y byrddau bwyd (ac ailafael yn y cwis wedi i bawb orffen cinio). Diolch yn fawr i'r ieuentid am baratoi'r cwis.

Trefnwyd y cyfan er budd Apêl Haiti 2013-2014 Undeb yr Annibynwyr a Chymorth Cristnogol. Gwahoddwyd pawb i gyfrannu at yr Apêl a chafwyd £273.75. Diolch yn fawr am yr holl gyfraniadau.

## Casgliad

Heddiw yw'r diwrnod olaf i gyfrannu at y casgliad a drefnodd Cyngor Eglwysi Deiniolen at Apêl Cymorth Cristnogol Y Pilipinas (Phillipines). Diolch am bob cyfraniad a gafwyd ers cyhoeddi'r casgliad bythefnos yn ôl.

Gellir rhoi'r cyfraniadau i swyddogion yr eglwysi yn Neiniolen yn ystod y dydd.

## Y Gymdeithas

Croesawyd Miss Sian Elen Thomas, Caernarfon, Prif Weithredwr GISDA i'r Gymdeithas Undebol yn Neiniolen nos Lun diwethaf, ac roedd yn braf ei gweld yn ôl yn ei chynefin yn y pentref. Daeth dau o'i chydweithwyr yn GISDA gyda hi i sôn am y gwasanaeth gwerthfawr hwn i bobl ifanc digartref Gwynedd. Clywyd am amrywiaeth y gwasanaethau y mae'r elusen yn eu darparu ar gyfer pobl sy'n ddigartref neu mewn angen am gymorth a chefnogaeth i wella eu sgiliau byw. Diolch i Siân a Mel a Harri am ddod i rannu'r stori gyda ni.

Ar ddiwedd y noson gofynnwyd i bawb gefnogi GISDA trwy bleidleisio dros yr elusen mewn cystadleuaeth a fyddai i'w gweld ar y teledu y noson ganlynol. Roedd gwobr o £50,000 i'r elusen a fyddai'n cael y mwyaf o bleidleisiau ac roedd GISDA'n gobeithio agor 'Caffi Ni' i bobl ifanc. Mae'n siŵr bod llawer

a oedd yno nos Lun wedi ffonio a bwrw pleidlais, ond yn anffodus ni ddaeth yr arian i GISDA y tro hwn (er bod mae'n debyg ail gyfle i'w ennill cyn diwedd yr wythnos).

## Cyfarfod Gweddi

Cynhelir Cyfarfod Gweddi Efe yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch nos Fercher, Rhagfyr 4, ac estynnir croeso cynnes i eraill i ymuno â ni i weddio dros y gwaith.

## Diolch

Derbyniwyd llythyr oddi wrth drefnwyr Banc Bwyd Caernarfon yn diolch am y bwyd a anfonwyd atynt o'r Gwasanaeth Diolchgarwch yn Capel Coch ddiwedd mis Hydref. Diolch eto i bawb am eu rhoddion y diwrnod hwnnw ac ar hyd y flwyddyn.

## Cyfraniadau

### Ariannol 2013

Bydd llyfrau ariannol **Capel Coch** yn cau nos Sul, Rhagfyr 29. Caiff pob cyfraniad a ddaw i law ar ôl hynny ei roi at gasgliadau 2014.

Diolch yn fawr am eich cydweithrediad.

Gofynnir yn garedig i aelodau **Ebeneser, Cefnywaun, Rehoboth a Nant Padarn** hefyd hwyluso gwaith y trysoryddion trwy anfon eu cyfraniadau am 2013 erbyn diwedd y flwyddyn

## Yr wythnos hon

## Ffair Nadolig

yn Capel Coch  
am 2.30 o'r gloch  
ddydd Mercher, Rhagfyr 4

Stondinau amrywiol  
Nwyddau newydd neu bron yn newydd  
Cacennau, tuniau bwyd  
Nwyddau Nadolig

Croeso cynnes i bawb

Yr elw at Gronfa'r Capel